

AGENDA

Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am

Eitem 1

Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 2

Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 3

Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 4

Dadl ar Lywodraethu'r UE

NDM919 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu;
2. Yn cymeradwyo'r datganiad o egwyddorion sy'n rhoi arweiniad ar lywodraethu da yng nghydestun yr UE;
3. Yn croesawu'r ddadl ehangach ar lywodraethu da yng Nghymru a ledled Ewrop sy'n deillio o'r Papur Gwyn.

Cafodd copi o Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ei e-bostio at yr holl Aelodau ar 10 Ionawr 2002.

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol

(1)+(2)+(3)

(4)+(5)+(6)+(7)

1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym mhwynt bwled un:

Dileu "Yn croesawu" a rhoi "Yn nodi" yn ei le.

2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Cymru i warchod buddiannau economaidd a gwleidyddol Cymru yn ystod y broses ehangu."

3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn gwrthwynebu integreiddio pellach â'r UE."

4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Cymru i bledio achos cryf y dylid cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop, a sefydlwyd gan Uwchgynhadledd ddiweddar Laeken."

5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mentrau o Gymru yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau peilot cytundebau contractiol a fydd yn cael eu lansio eleni."

6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lofnodi Datganiad Fflandrys, a gyhoeddwyd fis Mai diwethaf, a'r Penderfyniad a fabwysiadwyd gan Ail Gynhadledd Llywyddion y Rhanbarthau sydd â Phwer Deddfwriaethol, a gynhaliwyd yn Liège fis Tachwedd diwethaf."

(Rhoddwyd copïau o'r dogfennau uchod yn y Llyfrgell.)

7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cytuno y bydd llais Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gryfhau pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cael pwerau deddfwriaethol sylfaenol."

Eitem 5

Dadl Fer:

NDM920 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru); Cyfiawnder i Gymunedau'r Meysydd Glo.

Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mawrth, 22 Ionawr 2002

E P Silk

Clerc y Cynulliad